Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Pa mor briodol yw darpariaethau is-ddeddfwriaeth Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

1. Rheolau Sefydlog

1.1 Mae gan y Pwyllgor y pwerau a ganlyn o dan y Rheolau Sefydlog:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y gall y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig …..sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru' a chyflwyno adroddiadau ar hynny

- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau am rinweddau'r cynnig y bwriedir ei gyflwyno drwy'r Mesur arfaethedig, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y gall y Pwyllgor ystyried 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru' a chyflwyno adroddiadau ar hynny'.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw bod yn sail i ddadl Cyfnod 1 y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac unrhyw gyfnodau deddfwriaethol dilynol.

2. Ystyried y Mesur

2.1 Ar 27 Ebrill 2009 ystyriodd y Pwyllgor 'Fesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)' a phenderfynu rhoi ystyriaeth bellach i'r darpariaethau is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y Mesur arfaethedig gwahoddodd y Pwyllgor Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 11 Mai 2009.

3. Cefndir

3.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 2 Mawrth 2009 . Mae Pwyllgor Cyfnod 1 wedi'i sefydlu er mwyn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

3.2 Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn datgan:

"Mae'r Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) yn gwneud darpariaeth statudol i fynd ati i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran tlodi plant, ac i fynd ati'n fuan i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed

drwy ddwyn ymlaen ddeddfwriaeth i ddarparu mwy o gymorth i deuluoedd sydd, o bosibl, â phlant mewn perygl, a gorfodaeth reoleiddiol gryfach mewn lleoliadau plant ."

4. Y Pwerau a'r gweithdrefnau i wneud is-ddeddfwriaeth

4.1 Mae'r Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) yn gwneud darpariaeth statudol, drwy fframwaith deddfwriaethol, i fynd ati i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran tlodi plant. Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu mynd ati'n fuan i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed drwy ddwyn ymlaen ddeddfwriaeth i ddarparu mwy o gymorth i deuluoedd sydd, o bosibl, â phlant mewn perygl, ynghyd â chyflwyno gorfodaeth reoleiddiol gryfach mewn lleoliadau plant.

4.2 Mae pedair Rhan i'r Mesur arfaethedig:-

- Rhan 1: Dileu Tlodi Plant – adrannau 1 i 12
- Rhan 2: Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant – adrannau 13 i 48
- Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd – adrannau 49 i 58
- Rhan 4: Amrywiol a Chyffredinol – adrannau 59 i 68

At hynny, mae'r Mesur Arfaethedig yn cynnwys dwy Atodlen: mae Atodlen 1 yn ymdrin â mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ac mae Atodlen 2 yn ymdrin â Diddymiadau.

4.3 <u>Rhan 1 – Dileu Tlodi Plant</u>
Diben Rhan 1 y Mesur Arfaethedig yw cyflwyno fframwaith deddfwriaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cymru (fel y'u diffinnir yn adran 12) gyfrannu at ddileu tlodi plant a dangos eu hymrwymiad i hynny. Er mwyn gwneud hyn, mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu a chyhoeddi strategaethau sy'n adlewyrchu'r nodau eang sydd wedi'u cynnwys yn adran 1 o'r Mesur Arfaethedig ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Bydd y strategaethau hyn yn gyfeirbwynt ar gyfer pennu amcanion a chamau gweithredu eraill.

4.4 <u>Rhan 2 – Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant</u>
Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â gwarchod plant a rheoleiddio gofal dydd i'w chael yn Rhan 10A o Atodlen 9A i Ddeddf Plant 1989. Diben y Mesur Arfaethedig yw diddymu ac ailddeddfu'r darpariaethau presennol (sydd ar y cyfan yn dechnegol eu natur) i sicrhau bod yr ystod o opsiynau gorfodi rheoleiddiol ar gael i'r holl sefydliadau ac asiantaethau a reoleiddir gan Weinidogion Cymru, a chyflwyno opsiwn rheoleiddiol newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym i dramgwydd o dan y rheoliadau. Mae'r Mesur Arfaethedig yn ceisio ailddatgan ac yn addasu'r gyfraith mewn modd mwy cydlynus ac nid yw'n rhoi unrhyw feichiau sylweddol ar warchodwyr plant na darparwyr.

<u>Rhan 3 – Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd</u>
Diben Rhan 3 o'r Mesur Arfaethedig yw cyflwyno timau integredig cymorth i deuluoedd newydd er mwyn cryfhau'r cymorth i blant agored i niwed a'u

teuluoedd, drwy ailwampio'r gwasanaethau fel bod y cymorth yn cael ei dargedu'n fwy effeithiol ac yn cael ei ddarparu gan dimau amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol er mwyn cael canlyniadau gwell ar gyfer plant ac oedolion fel y gallant gyd-fyw'n ddiogel fel uned deuluol.

Rhan 4 – Amrywiol a Chyffredinol

Diben y Mesur Arfaethedig yw adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn enwedig Erthygl 31.1 a 2 ynghylch chwarae. Mae'r Mesur Arfaethedig yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd yn unol â rheoliadau a chanllawiau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur Arfaethedig hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i Erthygl 12.1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn perthynas â ffurfio a mynegi barn. Mae'r Mesur Arfaethedig yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod sy'n effeithio arnynt.

5. Darpariaethau sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Yn y mesur mae nifer o ddarpariaethau sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a gorchmynion mewn perthynas â swyddogaethau penodol o dan y Mesur Arfaethedig. Ym mhob achos, mae'r pŵer i'w arfer gan Weinidogion Cymru o dan offeryn statudol.

5.2. Mae'r darpariaethau a ganlyn yn cynnwys pwerau i wneud **rheoliadau**:-

Rhan 1

Adran 1(5): pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer penderfynu amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol;

Adran 4(3): o dan strategaethau i'w paratoi gan awdurdodau gwasanaethau plant Cymru, diwygir adran 26 o Ddeddf Plant 2004, gan roi pŵer i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno i wneud rheoliadau ynghylch cynlluniau plant;

Adran 5(3): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch strategaethau a gaiff eu paratoi gan awdurdodau Cymreig eraill, gan gynnwys y cyfnod y mae'r strategaeth i ymwneud ag ef; cyhoeddi'r strategaeth; adolygu ac ymgynghori ar y strategaeth cyn ei chyhoeddi;

Adran 6(1)(a); pŵer i wneud rheoliadau ynghylch dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael yn ddi-dâl; rhagnodi'r math o ofal plant sydd i'w ddarparu; rhagnodi disgrifiad o blant sydd â hawl iddo ac oed y plant hynny;

Adran 9(1): pŵer i wneud rheoliadau i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu mathau penodol o wasanaethau cymorth i rieni a gwasanaethau cymorth iechyd ar gyfer mathau penodol o blant neu rieni; pŵer i'w gwneud hi'n ofynnol bod y ddyletswydd sy'n deillio o wneud

rheoliadau o dan adran 6(1) neu ddyletswydd mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i rieni neu wasanaethau cymorth iechyd, yn gymwys i ran neu rannau o ardal awdurdod lleol;

Adran 9(2): pŵer i wneud rheoliadau am yr ardaloedd lle y mae gwasanaethau a bennir gan y rheoliadau i'w darparu naill ai yn y rheoliadau neu drwy ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau eu hunain bennu'r ardaloedd.

Rhan 2
Adran 18(2)(a) a (c): pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gan geisydd i gofrestru yn warchodwr plant, ynghyd â'r ffi berthnasol;

Adran 19: pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth bellach sydd i'w darparu gan geisydd i'w gofrestru yn warchodwr plant;

Adran 20(2)(a) a (c): pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gan geisydd i'w gofrestru yn ddarparwr gofal dydd ynghyd â'r ffi berthnasol;

Adran 21: pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth sydd i'w darparu gan geisydd i'w gofrestru yn ddarparwr gofal dydd;

Adran 22: pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi gwybodaeth am faterion a ragnodir, sydd i'w cynnwys ar dystysgrif cofrestru: pŵer i ragnodi ffi am roi tystysgrif yn lle un sydd wedi mynd ar goll;

Adran 24(1),(2),(3) a (4): pŵer i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu gweithgareddau personau a gofrestrwyd yn warchodwyr plant neu'n ddarparwyr gofal dydd, gan gynnwys lles a datblygiad plant; addasrwydd: cymwysterau a hyfforddiant; mwyafswm nifer y plant y caniateir iddynt dderbyn gofal; y lefelau staffio; mangreoedd; y weithdrefn gwynion; goruchwylio staff; cadw cofnodion; darparu gwybodaeth; rhwymedigaethau trydydd parti (o dan adran 23(3)) ac (o dan adran 24(4)), tramgwyddau a chosbau;

Adran 25(5): pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r amgylchiadau pan geir diddymu cofrestriad person;

Adran 26(1): pŵer i wneud rheoliadau i ragnodi'r amgylchiadau pan gaiff cofrestriad person ei atal;

Adran 32(2),(3),(4) a (5): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch anghymwyso person rhag cofrestru (adran 32(2)); i ragnodi amgylchiadau penodol pan gaiff person ei anghymwyso rhag cofrestru (adran 32(3)); darpariaeth bellach mewn perthynas â pherson sy'n byw ar yr un aelwyd â pherson a gafodd ei anghymwyso (adran 32(4)) a phŵer Gweinidogion Cymru i gydsynio na chaiff person ei anghymwyso (adran 32(5));

Adran 34(1),(2) a (3): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch arolygu darpariaeth gwarchod plant a gofal dydd; cyhoeddi adroddiadau (adran 34(1)); arolygu

gan Weinidogion Cymru neu Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant neu berson arall (adran 34(2)) a chymhwyso adran 29(2) i (4) o Ddeddf Addysg 2005 i adroddiadau a gyhoeddir o dan y rheoliadau (adran 34(3));

Adran 37(1),(2) a (3): pŵer i wneud rheoliadau ynghylch cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau lleol; Gweinidogion Cymru i gyflenwi gwybodaeth a ragnodwyd i awdurdodau lleol os ydynt yn cymryd camau penodol;

Adran 39(2) a (5): pŵer i ragnodi tramgwyddau sy'n dramgwyddau cosb benodedig; y cyfnod pryd na chaiff achos ei godi am y tramgwydd;

Adran 40(1) a (2): pŵer i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth atodol o ran hysbysiadau cosb; y symiau sydd i'w talu am gosbau penodedig;

Adran 44(1)(a) a (b): pŵer i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch gwarchod plant a gofal dydd; hyfforddiant ynghylch gwarchod plant a gofal dydd;

Adran 45(1) a (2): pŵer i wneud rheoliadau o ran y ffioedd sydd i'w talu gan bersonau cofrestredig: swm y ffioedd a hepgoriadau;

Adran 48(1) a (2): pŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer marwolaeth person cofrestredig;

Rhan 3
Adran 50 (2) a (9): pŵer i wneud rheoliadau sy'n pennu pa swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y caiff awdurdod lleol eu rhoi i dimau integredig cymorth i deuluoedd a phŵer i roi swyddogaethau i'r tîm ac i ganiatáu atgyfeirio i dimau integredig cymorth i deuluoedd mewn gwahanol amgylchiadau.

Adran 51(2): pŵer i wneud rheoliadau o ran y modd y caiff timau integredig cymorth i deuluoedd eu hariannu.

Rhan 4
Adran 60: pŵer i wneud rheoliadau am yr asesiadau y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud ynghylch digonolrwydd y cyfleoedd chwarae yn eu hardal.

5.3 Y weithdrefn ar gyfer y rheoliadau hyn yw'r **weithdrefn negyddol**. Caiff y defnydd o weithdrefn negyddol ei gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol ar y sail a ganlyn:-

5.4 Mae rheoliadau o dan y pwerau hyn yn ymwneud â materion technegol neu weithdrefnol neu â manylion. Ni fyddai natur a chynnwys darpariaethau a wneir o dan unrhyw reoliadau o'r fath yn briodol i'w cynnwys ar wyneb y Mesur. Mae hefyd yn ddymunol bod Gweinidogion Cymru yn cael hyblygrwydd i ddiwygio darpariaethau am faterion ar frys, megis y rhai hynny sy'n ymwneud â rheoleiddio gwarchod plant a gofal plant. Mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn gyfle i'r Cynulliad graffu i'r fath raddau ag sy'n

briodol ar y math cyfyngedig o ddarpariaeth ag y caiff ei gwneud yn y rheoliadau hyn.

5.5 Ym mhob un o'r achosion uchod, mae'r rhesymeg ar gyfer cymhwyso is-ddeddfwriaeth yn gorffwys ar yr angen am osgoi gormod o fanylion neu i ganiatáu hyblygrwydd, o fewn cyfyngiadau'r egwyddorion a gyflwynir yn y Mesur ei hun. Bydd llawer o fanylion yn y rheoliadau hyn, a byddant yn cael eu hadolygu a'u diwygio o dro i dro os bydd angen, ac oherwydd hynny ystyrir y byddai'n fwy priodol iddynt gael eu cynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Mesur.

5.6 Mae'r adrannau canlynol yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud **gorchmynion**:-

Rhan 1

Adran 1(7): pŵer i ddiwygio'r pethau hynny a restrwyd yn "nodau eang" sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yn adran 1(2).

Adran 2(5): pŵer i wneud rheoliadau i bennu amcanion ar gyfer awdurdod Cymreig mewn perthynas â'r nodau eang yn adran 1 a swyddogaethau'r awdurdod Cymreig. Darperir yn adran 2(6) y gall y rheoliadau hefyd ddatgymhwyso'r amcanion a ddewiswyd gan yr awdurdod i'r graddau a bennir.

Adran 12(2): pŵer i ddiwygio'r rhestr o gyrff a enwyd yn "awdurdodau Cymreig" ac sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth tlodi plant.

Rhan 2

Adran 13(4): pŵer i ddiwygio'r diffiniad o'r hyn sy'n golygu "gwarchod plant" a "gofal plant" ac felly mae'r person sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn atebol i gofrestru gyda'r awdurdod cofrestru.

Y weithdrefn ar gyfer y pwerau hyn i wneud rheoliadau yw'r **weithdrefn gadarnhaol**. Ym mhob achos maent yn rhoi pŵer i ddiwygio agwedd benodol ar y Mesur ei hun. Mae effaith bosibl y diwygiadau a wneir yn unol â'r pwerau hyn yn fwy pellgyrhaeddol boed mewn perthynas â'r ddyletswydd o ran tlodi plant neu o ran rheoleiddio'r sector gwarchod plant a gofal dydd.

Mae **Adran 67** yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gychwyn darpariaethau'r Mesur. Fel sy'n arferol yn achos gorchmynion cychwyn, **ni fydd unrhyw weithdrefn** yn berthnasol i orchmynion o'r fath.

5.7 Mae'r Mesur Arfaethedig hefyd yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau a chyfarwyddiadau.

6. Materion a godwyd mewn tystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor

6.1 Wrth glywed tystiolaeth gan y Gweinidog ceisiodd y Pwyllgor gael eglurhad a rhagor o fanylion am:

6.2 Ehangder y mesur arfaethedig

- Pa mor briodol yw pennu amcanion mewn rheoliadau
- Y posibilrwydd o gael amcanion gwahanol ar draws awdurdodau gwahanol
- Pa mor briodol yw gweithdrefn gadarnhaol
- A fydd y Mesur yn caniatáu dargyfeiriad polisi neu ddeddfwriaeth sylweddol o Loegr, a'r canlyniadau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant
- Trafodaethau gyda Gweinidogion perthnasol y DU ynghylch y Mesur Tlodi Plant..

6.3 Mewn ymateb i'r materion hyn nododd y Gweinidog nad oedd yn rhagweld pennu amcanion ar gyfer awdurdodau lleol, gan y byddai hyn yn bŵer wrth gefn i'w ddefnyddio pan fyddai awdurdodau yn methu cydymffurfio. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn anochel y byddai amrywiaeth ar draws Cymru o ran amcanion; mae hyn o ganlyniad i'r awdurdodau trefol a gwledig gwahanol a'r heriau gwahanol sy'n wynebu'r awdurdodau hynny. Nododd y Gweinidog nad oedd ffurf derfynol ar y Mesur Tlodi Plant hyd yma, ond byddai'n canolbwyntio'n bennaf ar feysydd sydd heb eu datganoli ac mae hyn yn cyfiawnhau Mesur Cymreig gwahanol. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gweithdrefnau y bwriedir eu cymhwyso i wneud is-ddeddfwriaeth a'r rhesymau a roddir yn y Memorandwm Esboniadol dros gymhwyso gweithdrefn benodol i bŵer penodol.

Barn y Pwyllgor

Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth a dderbyniwyd. Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r gweithdrefnau a gynigir ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar yr eithriad y manylir arno yn Argymhelliad 4.

6.4 Pwerau i wneud rheoliadau

- Cydbwysedd rhwng pwerau ar wyneb y Mesur arfaethedig a phwerau i wneud rheoliadau
- Y broses ymgynghori wrth wneud rheoliadau
- Amserlenni ar gyfer cyhoeddi canllawiau a dod â rheoliadau i rym.

6.5 Teimlai'r Gweinidog bod cydbwysedd rhwng pwerau ar wyneb y Mesur arfaethedig a'r pŵer i wneud rheoliadau a byddai'r manylion i'w gweld yn y rheoliadau. Nododd y Gweinidog bod hyn bob amser yn her a bod gofyn am gydbwysedd rhwng y fframwaith deddfwriaethol a'r rheoliad. Nododd y Gweinidog ei bod yn arfer safonol i beidio â chael dyletswydd i ymgynghori.

6.6 Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes unrhyw ddyletswydd statudol i ymgynghori. Fodd bynnag, gellir rhoi dyletswydd mewn achosion penodol. Mae *Craies on Legislation*[1] yn datgan:

> "It is common for the Minister in whom a power to make delegated legislation is vested to be under a statutory duty to consult before he exercises it. Failure to consult will generally render voidable any purported

[1] A Practitioner's Guide to the Nature, Process, Effect and Interpretation of Legislation

exercise of the delegated power. While a duty to consult falls short of a duty to comply with the wishes of the consultee, it is more than a pure formality, requiring the person consulting to give his mind in a genuine way to matters raised by those consulted"

6.7 Roedd Adran 65(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn cynnwys y ddarpariaeth a ganlyn:

"(3) The subordinate legislation procedures must also include provision for securing that, if a regulatory appraisal indicates that the costs of complying with any proposed Assembly general subordinate legislation are likely to be significant—

(a) appropriate consultation (including consultation with representatives of business) is carried out, and

(b) the regulatory appraisal is published,

before a draft of the statutory instrument containing the subordinate legislation is laid before the Assembly."

Diddymwyd y ddarpariaeth hon gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Argymhelliad 1: Er gwaetha'r dystiolaeth a'r wybodaeth arall gerbron, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ychwanegu dyletswydd i ymgynghori at y Mesur. Er mwyn sicrhau y gellir gwneud mân ddiwygiadau technegol heb ymgynghori, mae'r Pwyllgor yn argymell ymhellach bod eithriadau priodol yn cael eu dynodi.

6.6 Dileu Tlodi Plant

- Y nodau eang sydd wedi'u pennu ar gyfer dileu tlodi plant, os gellir diwygio'r rhain a defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol
- Y defnydd o reoliadau i bennu lefelau amddifadedd sylweddol ac incwm canolrifol, pa un a fyddai'n fwy priodol i'r penderfyniad hwn ymddangos ar wyneb y Mesur
- Yr effaith derfynol i awdurdodau lleol o ganlyniad i newidiadau yn y fframwaith polisi presennol.

6.7 Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud bod y nodau eang yn seiliedig ar dystiolaeth a theimlai y byddent ond yn cael eu diwygio o dan rai amgylchiadau, er enghraifft, pe bai gwrthdaro yn erbyn y Mesur Tlodi Plant. Teimlai'r Pwyllgor bod hyn yn gwrthddweud y dystiolaeth flaenorol (6.3), ond teimlai'r Gweinidog y byddai gwahaniaethau sylweddol yng Nghymru a fyddai'n ategu San Steffan. Nododd y Gweinidog bod yr incwm canolrifol penodol wedi'i hen sefydlu ac wedi'i ddefnyddio ers nifer o flynyddoedd. Nododd y Gweinidog hefyd na fyddai'r newidiadau yn y fframwaith polisi yn cael unrhyw effaith ariannol ar awdurdodau lleol.

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r Mesur Tlodi Plant wedi'i gyflwyno eto. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymell bod eglurhad yn cael ei roi mewn perthynas â'r effaith y caiff y Mesur Tlodi

Plant ar y Mesur hwn naill ai drwy atodiad i'r Memorandwm Esboniadol neu gyhoeddiad arall sydd ar gael yn rhwydd .

6.8 Gwarchod Plant a Gofal Dydd i Blant

- A yw Rhan 2 yn cael ei ystyried yn 'sgerbydol' wrth bennu'r drefn newydd arfaethedig ar gyfer rheoleiddio gwarchod plant a gofal dydd
- Rhesymau dros ailddeddfu'r gyfraith bresennol mewn perthynas â gwarchod plant a gofal dydd
- Yr Ymgynghori sydd wedi digwydd gyda darparwyr gofal plant a darparwyr gofal dydd
- Y disgresiwn eang a roddir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r amgylchiadau pan gaiff person ei anghymhwyso rhag cofrestru yn warchodwr plant a darparwr gofal dydd
- Yr amserlenni a'r adnoddau a ddyrennir er mwyn dod â'r rheoliadau i rym mewn perthynas ag arolygu darpariaethau gwarchod plant a gofal dydd
- Pwerau dirprwyedig i ragnodi tramgwyddau cosb benodedig a rhoi hysbysiadau cosb benodedig, ac a ddylai tramgwyddau perthnasol gael eu trefnu yn ôl Canllawiau Dedfrydu swyddogol y Llysoedd Ynadon a pheidio â chael eu pennu gan reoliadau
- Y math o dramgwyddau a ystyrir yn addas i gael eu trin gan hysbysiadau cosb benodedig ac a ddylid rhagnodi'r rhain ar wyneb y Mesur.

6.9 Nododd y Gweinidog bod Rhan 2 y Mesur yn gyfuniad o ddeddfwriaeth bresennol, gyda rhai gwelliannau wedi'u hychwanegu. Dywedodd y Gweinidog bod y disgresiwn eang a roddwyd i Weinidogion Cymru ynghylch anghymhwyso gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol; yn yr un modd, mae'r drefn arolygu hefyd yn cyfuno'r sefyllfa bresennol. Mae'r Pwyllgor ar ddeall bod system o hysbysiadau cosb benodol i'w chyflwyno mewn perthynas â sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Nododd y Gweinidog na ddylai mân dor-cyfraith fod yn destun achosion Llys ac na fyddai pob tor-cyfraith yn destun cosb benodedig, er na fyddai tor-cyfraith difrifol yn dderbyniol a byddai'n cael ei drin drwy achosion Llys.

Argymhelliad 3:
Mae'r Pwyllgor yn argymell nad yw Rhan 2 o'r Mesur arfaethedig yn cael ei gychwyn nes bod eglurhad wedi'i gael ynghylch sut y byddai'r cynigion yn gweithio ym maes safonau gofal.

6.10 Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFST)

- Anawsterau i randdeiliaid sy'n rhoi sylwadau ar ddarpariaethau mewn perthynas â Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd oherwydd bydd cymaint o'r gwaith yn ymwneud â Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd i'w gael mewn is-ddeddfwriaeth

- A ddylai strwythur a swyddogaethau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd gael eu rhagnodi er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau
- A ddylid cynnwys rhestr o bersonau a ragnodir ar wyneb y Mesur
- Yr angen i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ynghylch cynigion i newid cyfansoddiad Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd.

6.11 Nododd y Gweinidog bod dealltwriaeth ynghylch Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd a byddent yn cael eu rhedeg ar sail arloesol a byddai'r rheoliad yn rhagnodol. Nid oedd y Gweinidog yn teimlo bod angen rhestr o bersonau rhagnodedig ar wyneb y Mesur, gan fod angen bod yn hyblyg, ac mae'r Mesur eisoes yn pennu'r math o bobl a fyddai'n cael eu hystyried yn bersonau rhagnodedig. Nododd y Gweinidog y bu dwy flynedd o ymgynghori eang gyda rhanddeiliaid perthnasol.

Barn y Pwyllgor
Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r darpariaethau a amlinellir yn Rhan 3 mewn perthynas â Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

6.12 Amrywiol a chyffredinol
- y defnydd o weithdrefnau negyddol o dan adran 60 ac a fydd Gweinidogion Cymru'n ymgynghori'n llawn ar unrhyw ddiwygiadau i ddarpariaethau mewn perthynas â chyfleoedd chwarae digonol

6.13 Nododd y Gweinidog bod ymgynghoriadau a thrafodaethau ar y gweill ac fe'u defnyddir wrth gyflwyno dyletswyddau statudol ar gyfer cyfleoedd chwarae, a bod y defnydd o'r weithdrefn negyddol yn briodol gan nad yw'n effeithio ar y gwaith o fwrw ymlaen â'r Mesur.

Argymhelliad 4: Gan y byddai rheoliadau a wneir o dan Adran 60 (pŵer i wneud rheoliadau ynghylch yr asesiadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud ar gyfleoedd chwarae digonol yn eu hardal), yn nodi, i bob pwrpas, manylion sylweddol am y ddyletswydd, cred y Pwyllgor y dylai rheoliadau a wneir o dan Adran 60 fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol.